**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

21 Chwefror 2024

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024**

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024.

Rwyf wedi derbyn llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yr Arglwydd Douglas-Miller, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddwyd o dan adran 14(2) a (3) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â gweithredu newidiadau i drefn rheolaethau'r ffin ar gyfer archwiliadau iechydol a ffytoiechydol (SPS), a gyhoeddwyd yn y Model Gweithredu Targed y Ffin ym mis Awst 2023. Maent yn hwyluso gwelliannau sydd eu hangen i alluogi taliadau a ffioedd am reolaethau swyddogol ar nwyddau mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r drefn newydd.

Bydd y Rheoliadau yn gweithredu cerrig milltir y Model Gweithredu Targed y Ffin. Mae'r Rheoliadau'n hwyluso gwelliannau sydd eu hangen i alluogi taliadau a ffioedd am reolaethau swyddogol ar nwyddau archwiliadau iechydol a ffytoiechydol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r drefn newydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'r Rheoliadau yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt Llywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r offeryn hwn fod yn berthnasol i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Credaf nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol, ac na fyddai’n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**